**CYNGOR BRO MACHNO**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 12fed o Fawrth 2020 yn Festri Salem am 7.30

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Claire Roberts, Eryl Owain, Luned McFadden, Geraint Thomas a'r clerc, Elfed William. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eifion Davies.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 30 Ionawr 2020 fel rhai cywir, Colin Jones yn cynnig ac Eryl Owain yn eilio.

**Materion yn codi:**

**Materion ffyrdd:** Gofynnwyd i'r clerc drefnu cyfarfod efo'r Cyngor Sir i adolygu ffyrdd yr ardal, gan gynnwys y materion ychwanegol canlynol; dŵr yn cronni ger Park Hill, cerbyd wedi ei adael ar ochr y ffordd yn Cwm, ffosydd dyfnion ar ochr ffordd Wybrnant.

**Toiledau:** Adroddwyd fod y Cyngor Cymuned yn berchen ar y toiledau cyhoeddus a bod offer a defnyddiau glanhau wedi eu harchebu. Ni chafwyd ymateb i'r cais at gymdeithasau lleol am wirfoddolwyr i lanhau'r toiledau. Penderfynwyd holi ymhellach ac, yn cyfamser, byddai gwirfoddolwyr yn gwneud y gwaith.

**Llwybrau:** Penderfynwyd y dylid torri gwair ar y llwybrau ddwywaith y flwyddyn. Penderfynwyd bod angen peth gwaith cynnal a chad war lwybr y Waen.

**Swydd Clerc:** Mae un wedi mynegi diddordeb a phenderfynwyd trefnu i'r unigolyn gyfarfod y Cadeirydd a'r is-gadeirydd i drafod ymhellach.

**Materion Ariannol:**

Cyflwynwyd diweddariad o'r sefyllfa ariannol sydd yn dangos y bydd gan y Cyngor weddill sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Penderfywnyd gwahodd mudiadau lleol i gyflwyno ceisiadau am gymorth.

**Materion eraill:**

**Llygod Mawr:** Penderfynwyd cysylltu â'r Cynghorydd Sir i dynnu sylw eto at y problemau sy'n effeithio ar dai yn White Street a Ffordd Cwm.

**Maes parcio'r Machno:** Penderfynwyd pwyso ymhellach ar y Parc Cenedlaethol i ddelio â'r sefyllfa annerbyniol o ran cyflwr y maes parcio a'r nifer o gerbydau gwag sydd yno.

**Mynwent Arwelfa:** Cafwyd cwyn fod tyrchod daear yn achosi problemau yn y fynwent. Penderfynwyd ymchwilio ymhellach a gweithredu yn ôl yr angen.

**Menter Bro Machno:** Derbyniwyd llythyr yn amlinellu gweithgaredd y Fenter. Penderfynwyd ymateb yn diolch am y wybodaeth ac yn dymuno'n dda i'r fenter.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth y bydd llawer o waith torri a chariot coed dros y misoedd nesaf. Penderfywnyd ymateb i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau fod y loriau cludo coed yn cadw at y rheolau o ran amseroedd mynd a dod a'r ffyrdd i'w defnyddio.

**Cwt Hers:** Derbyniwyd cais am brynu'r cwt hers. Penderfynwyd yn erbyn ei werthu ond y dylid ei osod ar rent ac i hysbysebu hynny.